## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**Dyddiad:** 9 Hydref 2003

**Amser:** 09:00

**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Y Diweddaraf am Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Ddyfodol Polisi Rhanbarthol yr UE

### Diben

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am y safbwynt y mae Llywodraeth y DU yn ei esblygu ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE.

### Crynodeb

2. Yn dilyn y cyflwyniad ar y cyd i aelodau'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ym mis Mehefin a'r drafodaeth yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ar 16 Gorffennaf, mae Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi dechrau'r gwaith o ystyried y 300 o ymatebion a ddaeth i law i'w dogfen ymgynghori "A Modern Regional Policy for the United Kingdom". Gwnaeth Patricia Hewitt, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ddatganiad arno ar 17 Medi. Deallwn y caiff datganiad manylach ei wneud yn diweddarach eleni. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion ei hun ar gyfer polisi strwythurol a chydlyniant wedi 2006 cyn Nadolig, fel y dywedodd y Comisiynydd polisi rhanbarthol, Michel Barnier, wrthym yn ystod ei ymweliad diweddar â Chymru.

### Ystyriaeth

3. Cafodd y Pwyllgor ei friffio gan swyddogion yr Adran Fasnach a Diwydiant a'r Trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Mehefin a gafodd ei gynnal ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Esboniodd y swyddogion gefndir ymgynghoriad y Llywodraeth ar ei chynnig ar gyfer polisi rhanbarthol ôl-2006. Byrdwn y cynnig yw mai ar sail amgylchiadau'r aelod-wladwriaeth yn hytrach na'r rhanbarth y dylid penderfynu pwy sy'n gymwys am arian strwythurol. O ganlyniad, ni fyddai'r gwledydd cyfoethocaf (â GDP o fwy na 90% cyfartaledd 25-yr-UE) yn gymwys. Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai Cymru'n colli'i hawl i arian strwythurol. Fe fyddai yn hytrach yn cael arian digolledu oddi wrth Lywodraeth y DU a mater i'r Cynulliad fyddai ei ddyrannu fel rhan o'r broses gyllidebol.

4. Derbyniodd y DTI ryw 300 o ymatebion i gyd, ac mae wedi treulio'r haf yn eu hastudio. Daeth deg y

cant o'r ymatebion o Gymru. Gwnaeth Patricia Hewitt ddatganiad cyfamserol arnynt ar 17 Medi. Ceir copi o'r datganiad yn Atodiad A.

5. Cafodd Llywodraeth y Cynulliad hithau astudio'r ymatebion o Gymru ac fe'i defnyddiodd wrth baratoi ei chyflwyniad i Lywodraeth y DU ar 11 Gorffennaf. Ceir crynodeb o'r ymatebion hyn yn Atodiad B.

6. Cafodd Llywodraeth y DU gefnogaeth i'w safbwynt gan yr Iseldiroedd a Sweden yr haf hwn. Mae rhai aelodau eraill wedi mynegi diddordeb yn rhai o'r syniadau ym mhapur ymgynghori'r DU. Bydd Gweinidogion sy'n gyfrifol am bolisi rhanbarthol yn cyfarfod yn Rhufain ar 20 Hydref, eu cyfle olaf i drafod gyda'i gilydd cyn cyhoeddi cynigion y Comisiwn.

7. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei gynigion yn fuan ar gyfer yr ardaloedd sy'n derbyn arian Amcan 1 ar hyn o bryd ond sy'n debygol o golli'r hawl iddo oherwydd effaith ystadegol ehangu'r UE ar GDP yr UE - ardaloedd fel y Gorllewin a'r Cymoedd. Cafodd partneriaid yng Nghymru glywed syniadau'r Comisiwn yn syth o geg Comisiynydd Barnier yn ystod ei ymweliad diweddar â Chymru fel gwestai Llywodraeth y Cynulliad. Caiff cynigion manwl eu cyhoeddi yn Nhrydydd Adroddiad y Comisiwn ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol yn diweddarach eleni. Byddant yn sail i'r cynigion deddfwriaethol a gyhoeddir yng nghanol 2004.

## Amserlen

8.

| Dyddiad Bras | Gweithgaredd |
|---|---|
| 20 Hydref 2003 | Cyfarfod anffurfiol rhwng gweinidogion polisi rhanbarthol yr UE, Rhufain. |
| Hydref | Datganiad manwl o safbwynt Llywodraeth y DU |
| Tachwedd/Rhagfyr | Cyhoeddi Trydydd Adroddiad y Comisiwn ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol |
| Ionawr 2004 | Fforwm Cydlyniant ym Mrwsel |
| Gwanwyn | Cyhoeddi cynigion deddfwriaethol yr CE |
| canol 2004 - diwedd 2005 | trafod telerau rheoliadau arian strwythurol (y Cyngor Ewropeaidd, gweithgorau) |
| 2006 | trafod telerau dogfennau rhaglennu cronfeydd strwythurol 2007-13 ar gyfer rhanbarthau cymwys |

## Cydymffurfio

9. O dan Reol Sefydlog 15, yn benodol 15.2 a 15.3, un o swyddogaethau'r Pwyllgor yw "monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru" a "thynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol".

## Goblygiadau Ariannol

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Cyswllt yn yr Is-adran:** Y Gangen Materion Ewropeaidd ac Allanol 2, Pennaeth y Gangen: Jackie Brown (est. 3157).

**Atodiad A**

## Datganiad Seneddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant - Safbwynt Llywodraeth y DU ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE - Datganiad i'r Senedd, 17 Medi 2003

## Cyflwyniad

Amcan economaidd tymor hir y Llywodraeth yw sicrhau lefelau twf a chyflogaeth uchel a sefydlog. Mae polisi rhanbarthol yn ganolog i'n hymdrechion i gyflawni'r amcan hwn - trwy wneud yn siwr bod pob cenedl a rhanbarth yn y DU yn cyflawni eu potensial, bod pob rhan o'r wlad yn cyfranogi o'r ffyniant sydd ar gynnydd a bod y gwahaniaethau economaidd rhwng ein cenhedloedd a'n rhanbarthau yn cael eu clustnodi a'u hunioni.

Gwnaethom gyflwyno ym mis Mawrth, at ddiben ymgynghori, gynnig i ddiwygio'r Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniant trwy sefydlu Fframwaith ar gyfer Datganoli Polisi Rhanbarthol yn yr UE. Ein dadl oedd mai dyma fyddai'r ffordd orau i ddiwygio polisi rhanarthol yr UE gan y byddai'n cefnogi'n hagenda ranbarthol yma yn y DU ac y byddai'n ymateb yn deg ac mewn ffordd gynaliadwy i'r sialensau a ddaw yn sgil ehangu'r UE.

Ers hynny, rwyf wedi derbyn bron dri chant o ymatebion ysgrifenedig, a hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, boed trwy lythyr neu drwy gymryd rhan yn y cyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd ledled y DU. Ein casgliad wedi astudio'r ymatebion yw mai Fframwaith arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Datganoli Polisi Rhanbarthol sy'n cynnig y cyd-destun gorau i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer polisi rhanbarthol yn yr UE a'r DU yn y dyfodol. Bydd yn gallu cael ei ddatblygu i ddatrys y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad ac felly, hwnnw ddylai fod yn sylfaen i'n trafod yn Ewrop.

Rwy'n gwneud y datganiad byr hwn heddiw am fy mod am esbonio beth mae'r Llywodraeth am ei wneud wedi clywed yr ymatebion. Byddwn yn awr, gan ymgynghori â charfanau allweddol, yn rhoi cig ar esgyrn ein cynnig ac yn ateb y cwestiynau a'r gofidiau a godwyd yn yr ymgynghoriad. Dyna fydd pwnc datganiad manylach ar ôl y toriad ar Fframwaith yr UE a sut y'i gwelwn yn gweithio.

### Canlyniad yr ymgynghoriad

Roedd y cynnig a gafodd ei ystyried yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar yr amcanion allweddol canlynol:

- Rydym am weld polisi rhanbarthol Ewropeaidd sy'n cefnogi ac yn ychwanegu at werth yr agenda uchelgeisiol y mae'r wlad hon eisoes yn ei dilyn o safbwynt datganoli a datblygu rhanbarthol.
- Rydym am weld trefniadau gweithredu a monitro lawer symlach a mwy hyblyg, sy'n gymesur â'r arian sydd ar gael ac a fydd yn caniatau eu hintegreiddio â pholisiau eraill.
- Rydym am weld polisi rhanbarthol yr UE yn cefnogi'r agenda Ewropeaidd a wnaed yn Lisbon a mannau eraill ar gyfer cynyddu cynhyrchiant a chyflogaeth ac ar gyfer datblygu adnoddau dynol.
- Er nad ydym yn amau bod dal angen polisi rhanbarthol cryf ym mhob aelod-wlad, rydym yn credu y byddai'n decach, a mwy cost-effeithiol, sianelu adnoddau ariannol a gweinyddol prin yr UE i'r gwledydd tlotaf, lle byddant yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.
- A rhaid inni hefyd wneud yn siwr bod gwariant ar bolisi rhanbarthol yr UE, fel pob agwedd ar gyllideb yr UE, yn rhoi'r fargen orau i drethdalwyr Prydain.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi heddiw ar wefan y DTI. Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd i amcanion cyffredinol diwygio polisi rhanbarthol a chydlyniant yr UE o blaid yr amcanion hynny. O safbwynt yr angen am fwy o hyblygrwydd, diwygio cymorth gwladol a lleihau biwrocratiaeth, dywedodd y mwyafrif eu bod yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i'w diwygio hwythau hefyd. Roedd llawer hefyd yn cefnogi'n barn bod y trefniadau presennol yn anghynaliadwy yng nghyd-destun ehangu'r UE a dywedodd nifer o ymatebwyr na allai'r DU ddisgwyl cael yr un lefel o gymorth arian strwythurol ar ôl 2006.

O safbwynt ein cynnig ar gyfer Fframwaith ar gyfer Datganoli Polisi Rhanbarthol yn yr UE, roedd nifer fechan o ymatebwyr yn gefnogol iawn i'n syniadau. Roedd rhai o'r lleill yn gryf iawn yn ei erbyn, ac yn pleidio cadw'r Cronfeydd Strwythurol yn holl wledydd yr UE, gan gynnwys y DU. Ond roedd y mwyafrif llethol am gael mwy o wybodaeth am y cynnig a sut y byddai'n gweithio. Bydd y gwaith rydym yn ei wneud nawr yn ymateb i hyn.

Yn fwy penodol, law yn llaw ag eraill, byddwn yn gweithio i roi mwy o wybodaeth am:

- strwythur a chynnwys ein Fframwaith ar gyfer yr UE a sut y bydd yn gweithio ar lefel yr Aelod-wladwriaeth ac ar lefel Ewropeaidd;
- sut bydd y Fframwaith yn cryfhau ein hagenda ni ar gyfer ein polisi rhanbarthol;

- sut y byddwn yn cadw addewid y Llywodraeth i gynyddu gwariant domestig ar bolisi rhanbarthol pe bai'r Fframwaith yn cael ei fabwysiadu, gyda mwy o wybodaeth am faint a hyd yr addewid honno;

- mecanweithiau posibl ar gyfer darparu arian domestig, i sicrhau bod agweddau gorau'r cronfeydd Strwythurol yn cael eu cadw ond gyda system symlach a meinach;

- sut mae'r fframwaith yn ymgorffori gwahanol agendâu polisi domestig, er enghraifft adfywio trefol a gwledig a chefnogi gweithgareddau'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyflogaeth, gan gynnnwys y gwaith ar wneud pobl yn addas i weithio, sgiliau a chynhwysiant cymdeithasol;

- y cysylltiad rhwng Fframwaith yr UE a datblygiadau mewn meysydd polisi Ewropeaidd eraill, fel diwygio'r Drefn Cymorth Gwladol, y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Strategaeth Gyflogaeth Ewrop.

Yn ogystal, bydd gofyn i swyddogion ystyried sut y dylid mynd ati i ariannu'r cynllun PEACE yng Ngogledd Iwerddon.

## Casgliad

Mae cefnogaeth y Llywodraeth i'r amcanion ar gyfer polisi rhanbarthol Ewropeaidd y gwnaethom eu cyhoeddi ym mis Mawrth yn parhau'n ddiwyro. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth rydym wedi'i chael i'r amcanion hyn, ac yn dal i gredu mai hon fyddai'r ffordd orau i'w cyflawni. Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi sail i adeiladu ar ein cynigion hyd yma a byddwn yn gweithio i'w datblygu. Yn y cyfamser, ein cynnig fydd sail safbwynt y Llywodraeth yn y trafodaethau gyda'n partneriaid yn yr UE.

Trwy ymateb i her yr ehangu, trwy sianelu adnoddau'r UE i'r gwledydd tlotaf, trwy gytuno ar amcanion sy'n berthnasol i'r UE cyfan a rhoi mwy o hyblygrwydd i ranbarthau Ewrop o fewn y fframwaith hwnnw, rwy'n credu y gallwn gael y canlyniad gorau i aelod-wladwriaethau newydd Ewrop ac i genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

**Atodiad B**

## RESPONSES IN WALES

| Respondent | Date Received | Date of Letter |
|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | HEFCW | 25/05 | 13/05 |
| **2** | ELWa | 30/05 | 28/05 |
| **3** | CCW | 12/06 | 11/06 |
| **4** | Wrexham | 18/06 | 17/06 |
| **5** | Conwy | 25/06 | 25/06 |
| **6** | Neath-Port Talbot | 24/06 | 24/06 |
| **7** | Flintshire | 24/06 | 24/06 |
| **8** | Carmarthenshire | 24/06 | 24/06 |
| **9** | Pembrokeshire | 24/06 | 24/06 |
| **10** | Denbighshire | 24/06 | 24/06 |
| **11** | European Equality Partnership | 26/06 | 26/06 |
| **12** | WTB | 26/06 | 26/06 |
| **13** | Caerphilly | 27/06 | 27/06 |
| **14** | WCVA | 27/06 | 27/06 |
| **15** | Bridgend | 27/06 | 27/06 |
| **16** | Powys | 30/06 | 25/06 |
| **17** | WLGA | 03/07 | 03/07 |
| **18** | Cardiff | 30/06 | 25/06 |
| **19** | Newport | 01/07 | 30/06 |
| **20** | Ceredigion | 01/07 | 17/06 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **21** | CBI Wales | 02/07 | 02/07 |
| **22** | Wales TUC | 02/07 | 02/07 |
| **23** | Obj 1 PMC | 03/07 | 02/07 |
| **24** | Gwynedd | 03/07 | 03/07 |
| **25** | Vale of Glamorgan | 03/07 | 02/07 |
| **26** | Plaid Cymru | 04/07 | 03/07 |
| **27** | Merthyr | 04/07 | 04/07 |
| **28** | WDA | 04/07 | 04/07 |
| **29** | North Wales Economic Forum | 07/07 | 07/07 |
| **30** | EEAC & EDTC | 10/07 | 09/07 |
| **31** | Welsh Assembly Government | | 11/07 |